| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mawrth 2013** |
| **Aelod Arwain:** | **Y Cyng. David Smith, Aelod Arwain dros Dir y Cyhoedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rebecca Maxwell, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Uchelgais Economaidd a Chymunedol** |
| **Teitl:** | **Gwasanaeth Rhanbarthol Arfaethedig Cynllunio at Argyfwng** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae gwaith yn mynd rhagddo ers 2010 ymhlith 6 Chyngor Gogledd Cymru i werthuso buddion sefydlu gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng rhanbarthol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith ac yn nodi argymhellion yr achos busnes terfynol i symud i sefydlu gwasanaeth Rhanbarthol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofynnir i'r Cabinet ystyried yr argymhellion a'r dadansoddiad yn yr Achos Busnes Terfynol a phenderfynu a fydd yn cefnogi sefydlu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng rhanbarthol i Ogledd Cymru ai peidio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cabinet yn mabwysiadu'r cynllun busnes terfynol i sefydlu gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng rhanbarthol ar y sail a nodir ym mharagraff 4.12.

3.2 Bod yr awdurdod i gymeradwyo'r trefniadau pontio manwl i'r gwasanaeth newydd ac i wneud pob tasg angenrheidiol i sefydlu'r gwasanaeth newydd yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arwain.

## 4 Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Cynllunio at Argyfwng yn wasanaeth arwahanol ond hanfodol. Nodir crynodeb o'r trefniadau cyfredol yn Atodiad 1. O ystyried y cyfrifoldebau cynyddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r gwasanaethau bellach dan straen. Mae cadernid a'r ffordd orau o ddefnyddio adnoddau yn heriau i'w hateb.

4.2 Gyda hyn mewn cof, comisiynodd Prif Weithredwyr y chwe chyngor y gwaith o ddatblygu a phrofi achos busnes i un gwasanaeth sengl, gyda thimau isranbarthol, a swyddog yn bresennol ym mhob awdurdod i sicrhau arbenigedd a gwybodaeth leol a pharhad y gwasanaeth lleol.

4.3 Ers hynny, mae Compact Llywodraeth Leol – Llywodraeth Cymru wedi cynnwys cynllunio at argyfwng yn wasanaeth cydweithredol rhanbarthol a argymhellir.

4.4 Mae'r achos busnes terfynol (sydd ynghlwm yn Atodiad 2) yn seiliedig ar ddadansoddiad llawn o gostau a buddion sefydlu Gwasanaeth Rhanbarthol, ac mae'n argymell mabwysiadu gwasanaeth rhanbarthol gyda:-

- strwythur isranbarthol - dwy ganolfan (Dwyrain a Gorllewin) yn ymdrin â 3 Chyngor yr un
- y naill ganolfan yn cael ei harwain gan Reolwr Rhanbarthol a'r llall gan Ddirprwy
- Swyddog Cynllunio at Argyfwng ym mhob awdurdod lleol
- polisïau, prosesau a chynlluniau cyffredin ac adnoddau a rennir mewn un strwythur rheoli.

4.5 Byddai'r swyddog lleol yn gyfrifol am y canlynol: -

a) Ymgysylltu â rheolwyr, cyflogeion ac aelodau etholedig yn eu hawdurdod cynnal
b) Cefnogi proses adnabod risg yn lleol
c) Rhoi cynlluniau argyfwng ar waith
d) Datblygu cynlluniau parhad busnes lleol

4.6 Byddai swyddogion isranbarthol y canolfannau:-

a) yn cyflenwi cynlluniau
b) yn darparu hyfforddiant
c) yn datblygu ac yn cyflenwi ymarferion prawf
d) yn gweithio gyda'r Fforwm Cadernid Lleol
e) yn darparu cymorth gweinyddol a rheoli.

4.7 Byddai'r gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei gomisiynu a'i oruchwylio gan fwrdd gweithredol o swyddogion comisiynu. Byddai adroddiadau perfformiad cyfnodol yn cael eu gwneud i'r awdurdodau cyfansoddol am atebolrwydd.

4.8 Mae'r achos busnes yn nodi y bydd y model newydd yn cynnig mwy o gadernid a gwell arbenigo, mwy o gysondeb, gwell prosesau rhannu arfer gorau, gwell gallu a gwell gallu cynhyrchu. Bydd hefyd yn galluogi gwell cyswllt ag ymatebwyr allweddol eraill drwy'r Fforwm Cadernid Lleol ac yn darparu mwy o allu i weithio gyda rheolwyr gwasanaeth ar draws pob awdurdod lleol i gryfhau trefniadau ymateb.

4.9 Mae'r cynigion yn awgrymu arbedion cyffredinol i'r 6 Chyngor ar y cyd hyd at £75,000 am ryw 10% o'r gost. Hwyrach y bydd yn bosibl arbed rhagor oherwydd llai o ddyblygu. Pan fydd y gwasanaeth wedi'i sefydlu, bydd rhaid ystyried potensial gwasanaethau ar y cyd â'r Heddlu, Tân ac Iechyd.

4.10 Mae angen i'r cynnig ystyried y cytundeb Compact i sefydlu gwasanaeth a rennir gan awdurdodau lleol yn 2013 ac ystyried sefydlu gwasanaeth ar y cyd sy'n gwasanaethu awdurdodau lleol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân a phartneriaid eraill erbyn mis Medi 2015.

4.11 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynnig £35k o'r Gronfa Wella i gynorthwyo Gogledd Cymru i reoli'r pontio i wasanaeth rhanbarthol. Cyngor Sir y Fflint yw'r awdurdod arwain ar gyfer y prosiect.

4.12 Gofynnir i’r chwe awdurdod lleol i gyd gefnogi’r argymhelliad i sefydlu gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol ac ymuno ag ef ar y seiliau canlynol:-

a) bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei sefydlu ar sail niwtral o ran cost a bydd yn anelu at arbed 5% – 10% bob blwyddyn ar y costau presennol (£35-£75,000 y flwyddyn)

b) bydd y gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fwrdd rheoli sy’n atebol i’r cynghorau cyfansoddol gyda goruchwyliaeth ranbarthol yn cael ei darparu gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru

c) bydd Sir y Fflint yn arwain y cyfnod pontio i’r gwasanaeth newydd ac yn cynnal y gwasanaeth newydd

d) bydd cost y gwasanaeth newydd yn cael ei hadennill o’r partneriaid ar sail poblogaeth

e) bydd y gweithredu’n cynnwys trefniadau pontio i sicrhau na fydd yr un awdurdod yn talu mwy na chost gyfredol y gwasanaeth

f) bydd y model cyflogaeth yn cael ei benderfynu yn rhan o’r cynllun pontio

g) bydd cyflogeion cyfredol yn cael eu hystyried ymlaen llaw am swyddi yn y strwythur newydd a bydd y gwasanaeth newydd yn cael ei weithredu mewn modd sy’n cadw ac yn adleoli cymaint o’r staff â phosibl.

h) bydd y Tîm Gweithredu’n amddiffyn cystadleuaeth am y swyddi uwch yn y fframwaith ystyried ymlaen llaw.

i) bydd pob Awdurdod Lleol yn enwebu cynrychiolydd i Dîm Gweithredu. Bydd y Tîm Gweithredu’n helpu i benodi Rheolwr Prosiect dros dro.

4.13 Mae’r prosiect yn gweithio i’r amserlen ganlynol:-

- bod y cynghorau’n cytuno i ymuno â gwasanaeth rhanbarthol erbyn diwedd mis Mawrth 2013
- bod y gwaith o roi gwybod i staff ac ymgynghori â’r staff am yr achos busnes a’r cynigion yn dechrau yn ystod mis Chwefror 2013
- bod pob Cyngor yn enwebu cynrychiolydd i Dîm Gweithredu erbyn mis Chwefror 2013
- bod rheolwr prosiect yn cael ei benodi erbyn diwedd mis Mawrth 2013 i gyflenwi’r prosiect
- bod Rheolwr a Dirprwy Rhanbarthol yn cael eu penodi erbyn mis Mehefin/Gorffennaf 2013
- bod model cyflogaeth yn cael ei gytuno erbyn mis Mehefin/Gorffennaf 2013
- bod strwythur gweithredol a phrosesau gweithredu’n cael eu creu, a chyllideb fanwl yn cael ei datblygu a safle’n cael ei nodi erbyn mis Medi 2013
- bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chytundeb Partneriaeth yn cael eu datblygu erbyn mis Medi 2013
- bod cyflogeion yn cael eu dewis a chyflogaeth gyda’r endid newydd yn cael ei chadarnhau erbyn mis Medi 2013

- bod y gwasanaeth newydd yn weithredol o fis Hydref 2013.

4.14 Gofynnir hefyd i'r Cabinet ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo'r trefniadau pontio manwl i'r gwasanaeth newydd ac i wneud pob tasg angenrheidiol i sefydlu'r gwasanaeth newydd i'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arwain.

**4. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r cynnig hwn yn cyfrannu at y bwriad cyffredinol i Gyngor Sir Ddinbych fod yn Gyngor Ardderchog, sy'n Agos at y Gymuned. Bydd yr argymhellion yn darparu gwasanaeth Cynllunio ar Argyfwng sy'n fwy effeithlon, effeithiol a chadarn.

**5. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

5.1 Bydd gweithrediad y gwasanaeth yn cael ei gynllunio i fod yn niwtral o ran cost i bob partner a bydd yn ymdrechu i greu arbedion i bob un o'r partneriaid mewn ystod o 5% - 10% o ostyngiad.

5.2 Hwyrach y bydd rhyw effaith Adnoddau Dynol wrth reoli trosglwyddiadau. Mae'r staff sy'n darparu gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng ar hyn o bryd yn Sir Ddinbych yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir y Fflint dan y trefniadau rhannu gwasanaeth cyfredol.

5.3 Mae'n bosibl y gallai nifer fach o gyflogeion ar draws y 6 Chyngor ddewis ymddeol yn gynnar neu golli swydd yn wirfoddol o ganlyniad i ad-drefnu'r gwasanaeth hwn. Bydd unrhyw gostau'n cael eu talu o arbedion y dyfodol.

**6. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaethpwyd am y penderfyniad hwn?**

Bydd gwella ansawdd Cynllunio at Argyfwng yn cael effaith gadarnhaol ar grwpiau sy'n agored i niwed mewn cymdeithas drwy leihau posibilrwydd colli cartrefi, eiddo a niwed sy'n codi o argyfyngau.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

7.1 Datblygwyd yr achos busnes gyda Phenaethiaid y Gwasanaethau Cynllunio at Argyfwng. Fe'i rhannwyd gyda Phrif Weithredwyr chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Ymgynghorwyd hefyd â Gwasanaethau Tân a Heddlu Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

7.2 Rhannwyd yr Achos Busnes gyda'r Grŵp Arwain Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n goruchwylio'r Compact cenedlaethol.

7.3 Bydd ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ag Undebau Llafur ym mhob awdurdod lleol fel sy'n berthnasol wrth i'r model gwasanaeth newydd gael ei weithredu.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nod y cynnig yw darparu Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng mwy effeithiol a chadarn i bobl Sir Ddinbych heb unrhyw gost ychwanegol.

Targedwyd arbedion blynyddol gweddol fach, sef 5-10%, a fydd yn cael eu defnyddio i ddechrau i dalu costau sefydlu posibl mewn perthynas â staff.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae Adran 10 o'r Achos Busnes Terfynol yn cynnwys asesiad risg critigol.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 2 o Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
Rheoliad 8 o Reoliadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 (Cynllunio Wrth Gefn) 2005

Mae Erthyglau 6.1, 6.3.1 a 6.3.2(a) o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi pwerau a rôl y Pwyllgor o ran y maes hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Uchelgais Economaidd a Chymunedol
Ffôn:  01824 706061